**Eitem Rhif 2 yr Agenda**

# PANEL PENODIADAU ARBENNIG
# (PENNAETH POLISI A PHERFFORMIAD YN Y GYFARWYDDIAETH DYSGU GYDOL OES)

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mawrth 24 Mehefin 2008 am 9.00 a.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr H H Evans, I A Gunning, M M Jones a’r Prif Weithredwr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro: Dysgu Gydol Oes, Swyddog Personél (Linda M Jones) a Chlerc y Sir.

## YMDDIHEURIADAU

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau/Dirprwy Brif Weithredwr

## 1 PENODI CADEIRYDD

***PENDERFYNWYD*** *penodi’r Cynghorydd M M Jones yn Gadeirydd y Panel.*

## 2 EITEMAU BRYS

Dim

## GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD,*** *o dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod am yr eitemau busnes canlynol am y rhesymau eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig o bosibl fel y diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 3 PENODI PENNAETH POLISI A PHERFFORMIAD YN Y GYFARWYDDIAETH DYSGU GYDOL OES – LLUNIO RHESTR FER

Esboniodd y Swyddog Personél i aelodau sut y cafodd y broses recriwtio ei chynnal. Roedd y curriculum vitae a gyflwynwyd gan yr unig ymgeisydd a oedd wedi gwneud cais eisoes wedi’i ddosbarthu i’r aelodau. Rhoddwyd adroddiad llafar ar ganlyniadau Holiadur Personoliaeth Alwedigaethol mewn perthynas â’r ymgeisydd ynghyd ag argymhelliad yn y cyfarfod.

Ystyriodd yr aelodau rinweddau’r cais.

***PENDERFYNWYD*** *bod*

*(a) yr ymgeisydd yn mynd ymlaen i gyfweliad ffurfiol.*

*(b) y Panel yn ailymgynnull am 9.00 a.m. ar ddydd Mercher 2 Gorffennaf i bennu cwestiynau i’w rhoi i’r ymgeisydd yn y cyfweliad terfynol a fydd yn dechrau am 9.30 a.m. lle byddai’r ymgeisydd hefyd yn rhoi cyflwyniad ar destun a bennwyd ymlaen llaw.*

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 a.m.

********